Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

11 Gorffennaf 2014

Annwyl Syr/Madam,

Ymgynghoriad ar y **Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)**

Mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn cynnal ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).

Mae rhagor o fanylion am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig i'w cael ar wefan y Cynulliad yn:
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=10028

Dyma gylch gorchwyl yr ymchwiliad:

Ystyried—

1. egwyddorion cyffredinol y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i wella ymateb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru i gam-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol, gan gynnwys:
    - cyhoeddi strategaethau cenedlaethol a lleol a


Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Ffôn / Tel : 029 2089 8032
Ebost / Email: Pwyllgor.CCLlL@cymru.gov.uk

- phenodi Cynghorydd Gweinidogol ar Drais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

2. unrhyw rwystrau posibl i roi'r darpariaethau hyn ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried,
3. a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil,
4. goblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol,
5. priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol).

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan y rhai sydd â diddordeb yn y pwnc hwn. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisiau / cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, yn unol â'u polisïau gwybodaeth gyhoeddus. Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i'r ymchwiliad ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr hydref.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i:
Pwyllgor.CCLlG@cymru.gov.uk
Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA

Dylai ymatebion gyrraedd erbyn **5 Medi 2014**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r rhai sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr ddosbarthu atodedig anfon sylwadau. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe

baech yn gallu anfon copi o'r llythyr at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr hon, ond a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad o bosibl. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

## Datgelu gwybodaeth

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn www.cynulliadcymru.org/cy/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm. Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Christine Chapman AC**
Cadeirydd

**Rhestr Ddosbarthu**

**Elusennau / sefydliadau Gwasanaethau Cam-drin Domestig**
BAWSO
Gwasanaethau Cam-drin Domestig Blaenau Gwent (BGDAS)
Uned Diogelwch Menywod Caerdydd
Llwybrau Newydd
Prosiect Dyn
Merthyr Mwy Diogel (DART)
Cymorth i Fenywod yng Nghymru
Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru
SOLACE
Gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr
Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
Hafan Cymru
Ymddiriedolaeth Prawf Cymru
SARC (Canolfan Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol) Caerdydd
SARC (Canolfan Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol) Gogledd Cymru
Cymorth i Ddioddefwyr
Ymddiriedolaeth y Goroeswyr
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Sefydliad Menywod Mwslemaidd Henna
Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig
Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig yng Nghymru (MEWN)
Age Concern
Ymgyrch Rhuban Gwyn
Parity
Pobl yn Gyntaf, Rhondda Cynon Taf
Sdim Curo Plant! Cymru
Mudiad Both Parents Matter
Cefnogaeth ar ôl treisio a thrais rhywiol Leeds
Canolfan Trais a Cham-drin Rhywiol Coventry
Mankind
Cymorth i Fenywod Abertawe
Elusen Healing Men
Gwasanaeth Goroeswyr Argyfwng Trais a Cham-drin Rhywiol Bradford
Canolfan Gymorth Trais ac Ymosodiadau Rhywiol West Mercia
Canolfan Argyfwng Trais Rhywiol Caergrawnt
Llinell Trais Rhywiol Dwyrain Caint
Timau Cefnogi Pobl Gogledd Cymru
Argyfwng Trais Rhywiol Wycombe, Chiltern a De Swydd Buckingham
Cymorth i Fenywod Caerfyrddin
Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan
Undeb y Mamau
Yr Elusen Zero Tolerance
Fforwm Strategaeth 50+ y Fro
Chwarae Cymru
Cymorth i Fenywod Casnewydd
Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched - Cymru
Uned Diogelwch Cam-drin Domestig, Shotton
Canolfan Argyfwng Llosgach a Threisio De Essex

Survivors Trust Cymru a’i haelodau
Calan DVS
Hafan Cymru
Soroptimist International, Dinbych y Pysgod a’r Cylch
Argyfwng Treisio Cymru a Lloegr
Fforwm Addysg Rhyw, Lloegr
Trais Domestig Temper
Plant yng Nghymru
Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
Eaves i Fenywod
Prawf Cymru
Llamau
Cymorth i Fenywod - Dod allan o sefyllfa o Drais a Cham-drin
Canolfan Argyfwng Treisio Tyneside
Grŵp Gweithredu ar Drais yn erbyn Menywod
Y Glymblaid i Roi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod
Cymorth i Fenywod Brycheiniog
Unite Cymru
Cartrefi Cymunedol Cymru
Llinell Gymorth Genedlaethol Stelcio Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh
Barnardo’s Cymru
Sefydliad Tai Siartredig Cymru
Gweithredu Cyd-gysylltiedig yn erbyn Cam-drin Domestig (CAADA)
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Fforwm Cam-drin Domestig Ceredigion
Cynulliad Merched Cymru
Cymru Ddiogelach
Cymorth Cymru
Partneriaeth Mewnfudo Cymru
Gofal Cymdeithasol Torfaen
Atal-y-fro
Fforwm Ieuenctid Caerffili
Y Coleg Nyrsio Brenhinol
Age Cymru
Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru
Relate Cymru
Prifysgol Coventry
DASU (Uned Diogelwch Cam-drin Domestig - Glannau Dyfrdwy)
Canolfan Merched Gogledd Cymru

**Sefydliadau eraill**
Pob un o’r 22 Awdurdod Lleol (Prif Weithredwyr/ Cydgysylltwyr Cam-drin Domestig/Cysylltiadau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol/ Swyddogion/Rheolwyr Diogelwch Cymunedol)
Yr holl Fyrddau Iechyd Lleol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru
Y Swyddfa Gartref yng Nghymru
Heddlu Trafnidiaeth Prydain
Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Gwasanaeth Erlyn y Goron
Ysgol Astudiaethau Nyrsio a Bydwreigiaeth Prifysgol Caerdydd
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru
Comisiynydd Cwynion Annibynnol yr Heddlu
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Gwasanaethau Tân Cymru
Y Sefydliad Materion Cymreig
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu
Cynghrair Efengylaidd Cymru
Yr Eglwys yng Nghymru

**Sefydliadau cydraddoldeb**
Rhwydwaith Dileu Tlodi Cymru
Sefydliad Bevan
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Cymru Yfory
Anabledd Cymru
Diverse Cymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru
Anabledd Dysgu Cymru
Mencap Cymru
MEWN Cymru
SCOPE Cymru
Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc
Comisiynydd y Gymraeg
Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth
Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod